Ffurflen Gais i Gofrestru Eiddo ac Adeiladau Busnes Bwyd

(Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar Hylendid Bwydydd, Erthygl 6(2))

Ddylai gweithredwyr busnesau bwyd lenwi'r ffurflen hon o ran eiddo ac adeiladau busnes bwyd newydd a'i derbyn gan yr Awdurdod Bwyd perthnasol 28 diwrnod cyn dechrau gweithrediadau bwyd. Ar sail y gweithgareddau a wneir, mae gofyn **cymeradwyo** eiddo ac adeiladau rhai busnesau bwyd yn hytrach na'u **cofrestru**. Os ydych yn ansicr a fyddai unrhyw agwedd ar eich gweithrediadau bwyd yn gofyn cymeradwyo eich eiddo ac adeiladau, cysylltwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am gyfarwyddyd.

1. **Cyfeiriad yr eiddo ac adeiladau** _____
(neu gyfeiriad cadw eiddo symudol)
_____ **Cod Post** _____

2. **Enw masnachu'r busnes bwyd** _____ **Rhif Ffôn** _____

3. **Enw llawn gweithredwr neu weithredwyr y busnes bwyd** _____

4. **Cyfeiriad pencadlys gweithredwr busnes bwyd** _____
(os yw'n wahanol i gyfeiriad yr eiddo)
_____ **Cod Post** _____

Rhif Ffôn _____ **E-bost** _____

5. **Math o fusnes bwyd** (ticiwch BOB blwch sy'n berthnasol):

Bwyty / ffreutur / cegin staff	□	Ysbyty / cartref preswyl / ysgol	□
Adwerthwr (gan gynnwys siop fferm)	□	Dosbarthu / warws	□
Bwyty / caffi / bar byrbrydau	□	Gweithgynhyrchu / prosesu bwyd	□
Marchnad / Stondin marchnad	□	Mewnforio	□
Bwyd i fynd	□	Arlwyo	□
Gwesty / tafarn / tŷ llety	□	Pacio	□
Busnes bwyd mewn tŷ preifat	□	Eiddo symudol, e.e. fan hufen iâ	□
Cyfanwerthu / talu a chario	□	Cynhyrchu sylfaenol, (e.e. âr, da byw)	□
Brocer bwyd	□		

Arall (**rhowch fanylion**)_____

6. **Os yw hwn yn fusnes newydd, y dyddiad y bwriadwch agor** _____

Llofnod Gweithredwr y Busnes Bwyd _____

Dyddiad _____

Enw _____
(LLYTHRENNAU BRAS)

Dylid anfon y ffurflen wedi'i llenwi i:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
Swyddfeydd Rhiwabon
Stryd Fawr
Rhiwabon
Wrecsam
LL14 6NH

AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN HON, RHAID I WEITHREDWYR BUSNESAU BWYD DDWEUD AM <u>UNRHYW</u> NEWID ARWYDDOCAOL I'R GWEITHGAREDDAU A NODWYD UCHOD (GAN GYNNWYS CAU) WRTH GYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM A DYLAI WNEUD HYNNY CYN PEN 28 DIWRNOD AR ÔL I'R NEWID(IADAU) DDIGWYDD.

NODIADAU AR COFRESTRU EIDDO AC ADEILADAU BWYD

Cwmpas cyfraith bwyd

Mae deddfwriaeth diogelwch a hylendid bwyd yn berthnasol i fusnesau bwyd a gweithredwyr busnesau bwyd, fel y diffiniwyd. 'Busnes bwyd' yw unrhyw ymgymeriad, boed am elw neu beidio a boed yn gyhoeddus neu breifat, sy'n cynnal unrhyw gam o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd. 'Gweithredwr busnes bwyd' yw'r bobl naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu hateb yn y busnes bwyd dan eu rheolaeth. Yn gyffredinol, mae'n ofynnol cofrestru pobl neu sefydliadau sydd â'u gweithgareddau'n dod o fewn y diffiniadau hyn gan yr awdurdod cymwys perthnasol, yr Awdurdod Lleol fel arfer.

Eithriadau

- Gweithgareddau fel paratoi bwyd yn achlysurol gan unigolion neu grwpiau ar gyfer cynulliadau neu i'w werthu mewn achlysuron elusennol
- Cynhyrchu sylfaenol at ddefnydd cartref preifat
- Paratoi, trin neu gadw bwyd ar gyfer treuliant cartref preifat
- Cyflenwi symiau bach o gynhyrchion sylfaenol yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd i'r defnyddiwr olaf neu i adwerthwyr lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr olaf yn uniongyrchol
- Canolfannau casglu a barctai sy'n dod o fewn diffiniad busnes bwyd yn unig oherwydd eu bod yn trin deunydd crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen

Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau hyn yn dal i ddod dan y gofynion cyffredinol perthnasol i roi bwyd anniogel ar y farchnad sydd yn Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 fel y gweithredwyd gan y Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004.

Cofrestru

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu heiddo ac adeiladau (h.y. pob uned o'u busnes bwyd ar wahân, sy'n cynnwys pantrïoedd cig hela a chanolfannau casglu) gyda'r awdurdod cymwys perthnasol. Nid yw hyn yn berthnasol i'r sefydliadau hynny sydd angen cymeradwyaeth yn unig.

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu heiddo ac adeiladau gyda'r awdurdod cymwys perthnasol a dylent wneud hynny o leiaf 28 diwrnod cyn i weithrediadau bwyd ddechrau. Wrth gofrestru, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd roi manylion llawn y gweithgareddau i'r awdurdod cymwys perthnasol.

Unwaith y cofrestrwyd eu heiddo ac adeiladau, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r manylion a roddwyd, e.e. newid gweithredwr busnes bwyd, newid y gweithrediadau bwyd ac ati, yn cael eu hysbysu i'r awdurdod cymwys perthnasol. Dylid gwneud hysbysiadau o'r fath mor fuan ag y bo modd a, sut bynnag, cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

Sut mae cofrestru?

Trwy lenwi'r ffurflen hon. Ni all yr awdurdod wrthod cofrestru ac nid oes unrhyw dâl. Rhaid anfon y ffurflen gofrestru at yr awdurdod cymwys perthnasol, yr awdurdod lleol fel arfer. Os ydych yn defnyddio eiddo ac adeiladau yn nhiriogaeth mwy nag un awdurdod lleol, **rhaid i chi gofrestru gyda phob awdurdod ar wahân**.

Rhaid i chi roi tic yn ymhob blwch sy'n berthnasol i'ch busnes, ateb yr holl gwestiynau a rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. Os bydd gennych unrhyw gwestiwn, bydd eich awdurdod lleol yn eich helpu.

Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth y gwyddoch sy'n anwir

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen?

Byddwn yn rhoi'r manylion ar Gofrestr. Bydd y Gofrestr, gydag enw'r busnes (os oes un), y cyfeiriad, rhif ffôn a'r math o fusnes yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio. Ni fydd cofnodion y wybodaeth arall a roddwyd ar gael i'r cyhoedd.